O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2020 Rhif 457 (Cy. 104)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

# Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Abergwaun i Hwlffordd, Sir Benfro) (Cyfyngiadau Cyflymder Dros Dro a Dim Goddiweddyd) 2020

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *27 Ebrill 2020* |
| *Yn dod i rym* | *4 Mai 2020* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o gefnffordd yr A40, wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a/neu ei wahardd ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Cychwyn a Dehongli**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Abergwaun i Hwlffordd, Sir Benfro) (Cyfyngiadau Cyflymder Dros Dro a Dim Goddiweddyd) 2020 a daw i rym ar 4 Mai 2020.

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**2**); a

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(**2**) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22) ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 4 Mai 2020 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw Cefnffordd yr A40 Llundain i Abergwaun;

ystyr "lluoedd arbennig" ("*special forces*") yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

**Cyfyngiadau a Gwaharddiad**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

**4.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

**5.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 4 yn weithredol.

**Cymhwyso**

**6.**—(1) Nid yw'r cyfyngiadau a'r gwaharddiad yn erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y mae arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw derfynau cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

**Atal Dros Dro**

**7.** Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn wedi eu

hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 3 a 4 yn weithredol.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**8.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 27 Ebrill 2020

*Nicci Hunter*
Arweinydd Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

**ATODLEN 1**
**Terfyn Cyflymder 40 mya neu 10 mya Dros Dro a Dim Goddiweddyd**

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 103 o fetrau i'r gogledd o'i chyffordd â Chylchfan Ffordd Llwynhelyg, Hwlffordd hyd at bwynt 106 o fetrau i'r de o'i chyffordd â'r C3161 Hayscastle Road, Cas-blaidd.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 996 o fetrau i'r gogledd o'i chyffordd â'r C3161 Hayscastle Road, Cas-blaidd hyd at bwynt 233 o fetrau i'r de-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r B4331 St David's Road, Treletert.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 618 o fetrau i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r B4331 St David's Road, Treletert hyd at bwynt 40 metr i'r de o ganolbwynt Cylchfan Rafael, Abergwaun.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 37 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o'i chyffordd â Chylchfan Rafael, Abergwaun hyd at bwynt 521 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o'i chyffordd â'r gylchfan honno.

**ATODLEN 2**
**Terfyn Cyflymder 10 mya Dros Dro a Dim Goddiweddyd**

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd â Chylchfan Ffordd Llwynhelyg, Hwlffordd hyd at bwynt 103 o fetrau i'r gogledd o'i chyffordd â'r gylchfan honno, gan gynnwys ei cherbytffordd gylchredol.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 106 o fetrau i'r de o'i chyffordd â'r C3161 Hayscastle Road,

Cas-blaidd hyd at bwynt 36 o fetrau i'r gogledd o'r gyffordd ym Mryn Gomer.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 233 o fetrau i'r de-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r B4331 St David's Road, Treletert hyd at bwynt 217 o fetrau i'r gogledd-orllewin o'r gyffordd honno.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 40 metr i'r de o ganolbwynt Cylchfan Rafael hyd at ei chyffordd â Chylchfan y Parrog, gan gynnwys cerbytffyrdd cylchredol Cylchfannau Rafael, Windyhill a'r Parrog, Abergwaun.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 521 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o'i chyffordd â Chylchfan Rafael, Abergwaun hyd at bwynt 996 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o'i chyffordd â'r gylchfan honno.